Cyflwyno Newid Hinsawdd: Ddoe, Heddiw, ac Yfory

Gweithgaredd 2.3: Cyflwyniad i newid hinsawdd

Oed: 8+

Bydd angen

- Bwrdd gwyn rhyngweithiol, cyfrifiadur a mynediad at y Rhyngrwyd
- Y ddau ddarn o bapur siart o Weithgaredd 2.1
- Darn arall o bapur siart

Nod

Rhoi cyflwyniad eang i newid hinsawdd a chychwyn adnabod rhai o'r achosion.

Beth i'w wneud

Gwyliwch ffilm 2 funud *Climate Challenge* Defra ar newid hinsawdd fel dosbarth cyfan: http://www.climatechallenge.gov.uk/multimedia/film5.html
Wedi ei wylio unwaith, dywedwch wrth y disgyblion eich bod am ei chwarae eto. Atgoffwch hwy fod y ffilm yn dweud 'Pe bai modd i ni weld y nwyon, byddai achosion y broblem yn amlwg i bawb' a thrafodwch ystyr hyn. Gofynnwch i'r dosbarth edrych yn arbennig am **achosion** newid hinsawdd a glustnodwyd gan y ffilm.

Nodwch adborth am y prif achosion ar bapur siart.

Ewch yn ôl at y darnau papur siart o'r gweithgaredd cyntaf:

- A ydynt am ychwanegu rhywbeth at eu gwybodaeth?
- A yw'r ffilm wedi ateb unrhyw rai o'u cwestiynau?
- A yw wedi codi mwy o gwestiynau i'w hychwanegu at y rhestr?

Ychwanegwch unrhyw sylwadau at y daflen briodol.

Hawlfraint © Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.